Y Ddyletswydd i Sicrhau Cydraddoldeb i Bobl Anabl

Beth mae'n ei olygu i ysgolion yng Nghymru a Lloegr?

Disability Rights Commission

Beth yw'r Ddyletswydd i Sicrhau Cydraddoldeb i Bobl Anabl?

Dyletswydd newydd gadarnhaol ar bob corff cyhoeddus i hybu cydraddoldeb i bobl anabl yw'r Ddyletswydd i Sicrhau Cydraddoldeb i Bobl Anabl.

Mae'n rhaid i'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir gan awdurdod addysg lleol, a'r holl awdurdodau lleol eu hunain, gydymffurfio â'r Ddyletswydd i Sicrhau Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol gymryd camau rhagweithiol i hybu cydraddoldeb i ddisgyblion, gweithwyr cyflogedig a defnyddwyr gwasanaethau anabl yn ogystal â chyflawni eu dyletswyddau presennol.

Beth sy'n rhaid i mi ei wneud?

Mae'r ddyletswydd i hybu cydraddoldeb i bobl anabl, neu'r **ddyletswydd gyffredinol,** yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

- Hybu cyfle cyfartal
- Cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon
- Cael gwared ar aflonyddu sy'n ymwneud ag anabledd
- Hybu agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl
- Annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus
- Cymryd camau i ystyried anableddau pobl, hyd yn oed lle mae hynny'n golygu triniaeth fwy ffafriol.

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus rhestredig penodol gydymffurfio â **dyletswyddau penodol** hefyd ac maen nhw'n nodi mesur penodol, cynllunio gweithredol a mecanweithiau adrodd y mae angen i chi eu rhoi ar waith i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Prif elfen y dyletswyddau penodol yw cynhyrchu **Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl**.

Mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir a phob awdurdod lleol gynhyrchu ei Gynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl ei hun erbyn y dyddiadau canlynol:

Beth?	Lle?	Pryd?
Awdurdodau Lleol	Cymru a Lloegr	4 Rhagfyr 2006
Ysgolion Uwchradd	Lloegr	4 Rhagfyr 2006
Pob Ysgol Gynradd ac Uwchradd	Cymru	1 Ebrill 2007
Ysgolion Cynradd	Lloegr	3 Rhagfyr 2007
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Arbennig	Lloegr	3 Rhagfyr 2007
Unedau Cyfeirio Disgyblion	Lloegr	3 Rhagfyr 2007

Lle ddylwn i gychwyn?

- Darganfyddwch erbyn pryd mae angen i'ch Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl fod ar waith.
- Sicrhewch fod pob aelod uwch o staff a/neu lywodraethwyr eich sefydliad yn ymwybodol o'r ddyletswydd a'r hyn mae angen iddyn nhw ei wneud.
- Sefydlwch grŵp gwaith y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl i ddechrau drafftio'ch cynllun.
- Gofalwch eich bod yn cynnwys plant ac oedolion anabl yn y grŵp gwaith o'r cychwyn.
- Gofalwch eich bod yn cynnwys plant ac oedolion wrth flaenoriaethu'r camau rydych chi am eu cymryd a'r canlyniadau rydych chi am eu gweld ar ôl tair blynedd.

Lle alla i gael rhagor o wybodaeth?

Mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd wedi cynhyrchu Cod Ymarfer a chanllawiau ar wahân i ysgolion, yn ogystal â chanllawiau ar faterion eraill fel cymryd rhan a chasglu tystiolaeth.

Mae'r Cod Ymarfer, pob canllaw a llawer mwy ar gael yn:
www.dotheduty.org

Cyflawni'r Ddyletswydd!

Os hoffech chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch â'r Llinell Gymorth. Mae hefyd ar gael ar wefan y Comisiwn Hawliau Anabledd.

Gallwch gysylltu â Llinell Gymorth y Comisiwn Hawliau Anabledd trwy lais, testun, ffacs neu e-bost drwy'r wefan. Gallwch siarad â rhywun ar unrhyw adeg rhwng 8am a 8pm dydd Llun i ddydd Gwener.

Ffôn 08457 622 633	Ffôn testun 08457 622 644
Ffacs 08457 778 878	Gwefan www.drc-gb.org

Cyfeiriad
DRC Helpline, FREEPOST, MID 02164
Stratford Upon Avon CV37 9BR